



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: 46262**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Treth Gyngor Decach

16 Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

## **Trosolwg**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru fel y man cychwyn ar daith tuag at system decach a mwy graddoledig.

## **Camau i'w Cymryd**

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [LocalGovernmentFinanceReform@gov.wales](mailto:LocalGovernmentFinanceReform@gov.wales)

## **Copïau ychwanegol**

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb o ymatebion hwn a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael [yma](#).

# Cynnwys

Cynnwys.....	3
Cyflwyniad.....	4
Yr Ymgynghoriad .....	4
Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?.....	5
Cwestiwn 1: Ymarfer Ailbriso 2025.....	6
Cwestiwn 2: Ychwanegu ac ailosod bandiau .....	8
Cwestiwn 3: Trefniadau Trosiannol .....	9
Cwestiwn 4: Grant Cynnal Refeniw .....	10
Cwestiwn 5: Ymarferion Ailbriso Treigl .....	12
Cwestiwn 6: Gwelliannau i Eiddo .....	13
Cwestiwn 7: Apeliadau a Rheoli Dyled.....	15
Cwestiwn 8: Moderneiddio'r Gwasanaeth a Thryloywder y Gwasanaeth .....	17
Cwestiwn 9: Disgowntiau ac Eithriadau.....	18
Cwestiwn 10: Hyblygrwydd Disgowntiau Oedolyn Sengl ac Eiddo Gwag .....	19
Cwestiwn 11: Eiddo wedi'i Addasu ar gyfer Pobl Anabl .....	20
Cwestiwn 12: Teitlau Disgowntiau / Â Nam Meddyliol Difrifol.....	21
Cwestiwn 13: Dyluniad Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.....	22
Cwestiwn 14: Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.....	23
Cwestiwn 15: Trefniadau Lleol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor .....	24
Cwestiynau 16 a 17: Y Gymraeg.....	25
Cwestiwn 18: Unrhyw Sylwadau Pellach.....	26
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad .....	28

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Dreth Gyngor Decach* a gynhaliwyd rhwng 12 Gorffennaf a 4 Hydref 2022. Ymdriniodd yr ymgynghoriad â thri phrif faes, sef: ymarfer ailbrizio ac ailfandio posibl yn 2025; adolygiad o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau'r dreth gyngor; ac adolygiad o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## Yr Ymgynghoriad

Ceisiwyd barn fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos o hyd a ddechreuodd ar 12 Gorffennaf 2022 ac a ddaeth i ben ar 4 Hydref 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, dros e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg. E-bostiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad at amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cynrychioliadol a chyrrff proffesiynol yn y sectorau perthnasol.

Cafwyd **1,024** o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn adlewyrchu sbectrwm eang o fuddiannau a safbwyntiau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys wyth cwestiwn a oedd yn ymwneud ag ymarfer ailbrizio ac ailfandio'r dreth gyngor arfaethedig, pedwar cwestiwn a oedd yn ymwneud ag adolygiad o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau'r dreth gyngor a thri chwestiwn a oedd yn ymwneud ag adolygiad o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ynghyd â thri chwestiwn mwy cyffredinol.

Nod y ddogfen hon yn cyflwyno'r farn a'r themâu cyffredinol a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhof pob ymateb unigol.

Dim ond i Gymru roedd yr ymgynghoriad yn berthnasol.

## Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Cafwyd cyfanswm o **1,024** o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys y rhai a ddaeth i law hyd at 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cau. Mae'r holl ymatebion hyn wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau buddiant, fel a ganlyn.

Categori'r Ymatebydd	Nifer yr Ymatebwyr
Aelodau o'r Cyhoedd	949
Prif Awdurdod Lleol	17
Cyngor Cymuned a Thref	18
Ymarferwyr mewn Awdurdod Lleol	3
Cyrff yr Heddlu	1
Cyrff Cynrychioliadol	23
Arbenigwyr Proffesiynol / Academaidd	6
Busnesau	7

Lle nad yw ymatebwyr wedi darparu enw sefydliad, tybir eu bod wedi ymateb fel unigolion ac maent wedi'u dosbarthu'n aelodau o'r cyhoedd.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr, heblaw am y rhai a oedd am aros yn ddiennw, yn Atodiad A. Lle y gofynnodd ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi eu manylion, maent yn ymddangos fel 'Dienw' er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## Cwestiwn 1: Ymarfer Ailbrisió 2025

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarfer ailbrisió'r dreth gyngor yn 2025, gyda gwerthoedd eiddo yn seiliedig ar 1 Ebrill 2023, er mwyn cynnal hygrededd y system a dosbarthu'r baich treth yn decach? Nid codi refereniw ychwanegol drwy'r ymarfer hwn fyddai'r diben.

Ydw	439 o ymatebwyr / 43%
Nac ydw	562 o ymatebwyr / 55%
Dim Ateb	23 o ymatebwyr / 2%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Darparodd **810** o ymatebion (79% o'r cyfanswm) ateb ysgrifenedig. Mynegodd dros draean o'r ymatebion hyn (35%) bryderon y byddai ymarfer ailbrisió yn arwain at filiau treth gyngor uwch. Hefyd, cafwyd sylwadau y byddai ymarfer ailbrisió yn creu annhegwch yn system y dreth gyngor, oherwydd y canfyddiad y bydd bil pawb yn cynyddu ac y bydd y rhai sy'n ennill incwm canolig ac aelwydydd incwm sefydlog megis pensiynwyr yn cael eu cosbi yn benodol. Roedd y thema hon yn yr holl ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.

Nododd ymatebion eraill fod ymarfer ailbrisió yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2023 yn amhriodol am fod prisiau eiddo wedi codi ers 2003. Nid oedd y safbwyntiau hyn wedi ystyried natur gymharol system y dreth gyngor, a fyddai'n parhau i fod ar waith yn dilyn unrhyw ymarfer ailbrisió arfaethedig h.y., bydd angen cartrefi mewn bandiau treth is o gymharu ag eraill o hyd. O ganlyniad, awgrymodd sawl ymatebydd y dylid gohirio ymarfer ailbrisió 2025 neu na ddylid ei gynnal o gwbl. Nododd rhai ymatebion hefyd nad yw Lloegr erioed wedi ailbrisió eiddo at ddibenion atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, sy'n awgrymu nad oedd angen cynnal ymarfer ailbrisió yng Nghymru.

Ar y llaw arall, nododd ymatebion eraill y byddai cynigion Llywodraeth Cymru yn gwneud system y dreth gyngor yn decach neu y byddent yn gam cadarnhaol tuag at wneud hynny. Heb ymarfer ailbrisió, fel y'i dyfynnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), "*mae'n tansellio hygrededd y system gyllid. Os nad yw'r sylfaen drethu yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, mae'n gwanhau'r contract cymdeithasol ac yn tansellio enw da llywodraeth leol mewn perthynas â'r cymunedau y mae aelodau yn eu cynrychioli*". Roedd hon yn farn a ailadroddwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector gan gynnwys Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth a Money Advice Trust yn ogystal ag awdurdodau lleol unigol.

Awgrymodd rhai ymatebion ysgrifenedig y dylai'r atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor fod yn seiliedig ar rywbeth heblaw gwerth eiddo. Roedd yr opsiynau yn cynnwys:

- Yn seiliedig ar incwm neu brawf modd (7% o'r ymatebion ysgrifenedig);

- Yn seiliedig ar 'System Barhaus a Chymesur' fel y'i nodir gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid;
- Yn seiliedig ar nifer y meddianwyr mewn eiddo (4%);
- Yn seiliedig ar y defnydd o wasanaethau (3%);
- Treth gwerth tir leol (1%), fel y'i trafodir mewn gwaith ymchwil gan Brifysgol Bangor;
- Cyfradd safonol waeth beth fo maint na chyfansoddiad yr aelwyd (1%), yn debyg i'r Tâl Cymunedol.

## Cwestiwn 2: Ychwanegu ac ailosod bandiau

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu rhagor o fandiau'r dreth gyngor (er enghraifft ym mhen uchaf a phen isaf y raddfa) ac ailosod y bandiau er mwyn gwneud y system yn fwy graddoledig?

Ydw	498 o ymatebwyr / 49%
Nac ydw	489 o ymatebwyr / 48%
Dim Ateb	37 o ymatebwyr / 3%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Cafwyd **241** o ymatebion ysgrifenedig (23% o'r cyfanswm). Nododd 17% o'r ymatebion hyn na ddylai unrhyw newidiadau gael eu gwneud i'r strwythur bandio presennol, gan awgrymu y byddai diwygio'r bandiau prisio er mwyn adlewyrchu gwerthoedd eiddo wedi'u diweddarau yn ddigon.

Dywedodd bron i chwarter (24%) y dylai unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â diwygio bandiau fod yn deg ac yn raddoledig ac y dylent ystyried y gallu i dalu neu unrhyw faich ychwanegol y gallai bandiau ychwanegol ei osod ar aelwydydd yng Nghymru. Roedd 17% yn llai penodol ond gwnaethant nodi y gallai addasu bandiau'r dreth gyngor wneud system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig.

Nododd ymatebwyr eraill fod system â bandiau yn wrthgynyddol fel arfer am nad oedd yn caniatáu i sefyllfa ariannol aelwyd gael ei hystyried wrth gyfrifo atebolrwydd. Fodd bynnag, o safbwynt awdurdod lleol, roedd y ffaith bod system â bandiau yn hawdd i'w gweinyddu yn cael ei hystyried yn fantais allweddol.

Roedd chwarter yr ymatebion ysgrifenedig yn cytuno y dylid ychwanegu rhagor o fandiau at ben uchaf strwythur brandio presennol y dreth gyngor, er mwyn cynyddu'r gyfran gymharol y mae eiddo gwerth uchel yn ei chyfrannu at y dreth gyngor a gwasanaethau lleol.

Galwodd nifer llai ar i fwy o fandiau gael eu hychwanegu at y gwaelod, gan nodi bod eiddo gwerth is yn ffurfio cyfran fawr o'r sylfaen drethu ac y gallai ailddosbarthu atebolrwydd yn y pen isaf wneud y dreth gyngor yn decach. Awgrymodd Shelter Cymru y bydd bandiau ychwanegol, yn gyffredinol “...yn darparu mwy o fanylion am gyfansoddiad y stoc da”.

Awgrymodd sylwadau eraill y dylid gwneud y bandiau yn gulach (5%) neu'n lletach (1%).



## Cwestiwn 3: Trefniadau Trosiannol

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ystyried trefniadau trosiannol os bydd eu hangen i liniaru effaith diwygiadau. Pa ffactorau y dylem eu hystyried wrth lunio'r trefniadau hyn?**

Darparodd **610** o ymatebion (60% o'r cyfanswm) ateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Nododd ychydig o dan hanner yr ymatebion hyn (44%) y dylid ystyried yr argyfwng costau byw a/neu'r gallu i dalu yn dilyn ymarfer ailbriso wrth lunio trefniadau trosiannol. Mynegodd ymatebion nodweddiadol i'r perwyl hwn y canlynol: "*Mae angen i bandemig Covid-19 a'r ôl-ffeithiau gael eu hystyried ochr yn ochr â chostau byw, am fod prisiau tanwydd, nwy, trydan a bwyd yn parhau i gynyddu ond nad yw pensiynau a chyflog yn unol â'r cynnydd hwn*".

Awgrymodd un o bob pump o'r ymatebion ysgrifenedig (21%) y dylid cyflwyno unrhyw gynnydd mewn biliau treth gyngor fesul cam dros gyfnod. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys codi biliau treth gyngor un band y flwyddyn ariannol yn unig (lle mae newid o fwy nag un band yn effeithio ar aelwydydd); codi biliau treth gyngor yn ôl canran gymesur y flwyddyn ariannol am nifer benodol o flynyddoedd nes i'r aelwyd gyrraedd swm llawn y bil; neu gymorth yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw mewn eiddo.

Gofynnodd 13% o'r ymatebion ysgrifenedig am roi sylw dyledus i aelwydydd incwm sefydlog, megis pensiynwyr, nad yw eu hincwm, o bosibl, yn cyfateb i werth eu heiddo: "*mae rhai pensiynwyr yn meithrin perthynas agos â'r cartref teuluol dros flynyddoedd lawer ond maent yn cael eu gorfodi i symud gan dreth newydd*".

Mae'r Sefydliad Siartredig Trethiant (CIOT) a'r Grŵp Diwygio Trethi Incwm Isel (LITRG), sy'n cynrychioli barn eu haelodau, "*yn cytuno â'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid bod cyfaddawd rhwng manteision posibl cyflwyno cynnydd sylweddol mewn biliau treth fesul cam â chymhlethdod y broses o ddylunio a gweithredu unrhyw drefniadau trosiannol ac, o bosibl, y costau refeniw sy'n gysylltiedig â hynny*", sy'n awgrymu y dylai pragmatiaeth fod yn ffactor allweddol i'w ystyried.

Roedd rhai ymatebion hefyd yn galw am i faich gweinyddol trefniadau trosiannol ar awdurdodau lleol gael ei ystyried.

## Cwestiwn 4: Grant Cynnal Refeniw

A ydych yn cytuno y dylid addasu Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru i gynghorau er mwyn ystyried newidiadau i'r refeniw a godir ym mhob ardal leol o ganlyniad i ddiwygiadau i'r dreth gyngor?

Ydw	560 o ymatebwyr / 55%
Nac ydw	358 o ymatebwyr / 35%
Dim Ateb	106 o ymatebwyr / 10%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Darparodd **277** o ymatebion (27% o'r cyfanswm) ateb ysgrifenedig i Gwestiwn 4. Mewn 26% o'r ymatebion hyn, roedd sylwadau cyffredinol o blaid aiddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd pob awdurdod lleol yn cefnogi'r egwyddor o aiddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw am ei fod yn “...*nodwedd hirsefydledig ar system y Grant Cynnal Refeniw y dylai'r broses o dddosbarthu grantiau gyfartalu ar gyfer y sail adnoddau leol (yn ogystal ag angen)*”. Roedd CLILC yn cytuno a nododd hefyd “*y dylid ystyried cynghorau y mae eu sylfaen drethu'n cynyddu'n sylweddol ond sy'n pennu treth gyngor [...] islaw'r Dreth Gyngor ar Wariant Safon!*”.

Roedd 7% o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys sylwadau cyffredinol yn erbyn aiddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys y canlynol: “*dylai pob cyngor fod (bron) yn gwbl gyfrifol am ei refeniw a'i wariant ei hun. Atebolrwydd lleol. Mae'n fuddiol i ddemocratiaeth.*” Roedd ymatebion eraill yn gwrthwynebu'r diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor, ar y cyfan.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gan rannau gwahanol o Gymru ofynion gwahanol o ran lefel gwasanaeth neu heriau gwahanol i'w goresgyn. Felly, dylai'r cyllid sydd ei angen i'w cynnal hefyd amrywio. Er enghraifft, roedd rhai o'r farn y dylid cyfeirio mwy o gyllid at “*ardaloedd gwledig â phoblogaethau llai sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol dros ardaloedd helaeth a allai gael anghydbwysedd o ran oedran ac incwm*”. Awgrymodd eraill y dylid cyfeirio mwy o gyllid at gynghorau yng Ngogledd Cymru.

Roedd canfyddiadau cyffredinol eraill bod “*angen dyrannu refeniw ychwanegol i'r cynghorau tlotaf lle y bo'n bosibl*” er mwyn gwella gwasanaethau a pherfformiad lleol, tra nododd ymatebwyr eraill fod angen mwy o gyllid ar awdurdodau lleol yn gyffredinol, a hynny ar frys. Yn ei ymateb, noda UNSAIN: “*mae angen i awdurdodau gael mwy o gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru ac, yn ei thro, rhaid i Lywodraeth Cymru bwysu ar San Steffan i ddarparu'r cyllid ychwanegol hwn*”. Adleisiwyd y thema hon gan eraill.

Roedd cynnwys 15% o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd i Gwestiwn 4 yn rhyw awgrymu nad oedd yr ymatebydd yn deall y cwestiwn. Cydnabyddir bod angen gwybodaeth gliriach am y maes cymhleth hwn.

Roedd nifer bach o ymatebwyr hefyd wedi galw am adolygiad o fformiwla cyllido llywodraeth leol.

## Cwestiwn 5: Ymarferion Ailbrisiu Treigl

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarferion ailbrisiu'r dreth gyngor yn aml o leiaf bob pum mlynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y caiff y baich treth ei rannu'n deg rhwng trethdalwyr yn rheolaidd?

Ydw	378 o ymatebwyr / 37%
Nac ydw	612 o ymatebwyr / 60%
Dim Ateb	34 o ymatebwyr / 3%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Darparodd **341** o ymatebion (33% o'r cyfanswm) sylwadau ychwanegol. Roedd 28% o'r ymatebion hyn yn cynnwys awgrymiadau ynghylch faint o amser y dylai fod rhwng ymarferion ailbrisiu. O'r rhai a roddodd awgrymiadau ynghylch amseriadau penodol, roedd ymatebwyr wedi dadlau o blaid y canlynol:

Mwy nag 20 mlynedd	2 ymatebydd / 1%
Bob 20 mlynedd	2 ymatebydd / 1%
Bob 10 mlynedd	42 o ymatebwyr / 12%
Bob 5 mlynedd	28 o ymatebwyr / 8%

Nododd 15% o'r ymatebion ysgrifenedig y dylai cost ymarferion ailbrisiu treigl fod yn fach iawn neu'n gosteffeithiol, gyda rhai yn mynegi eu hanfodlonrwydd ar gost ragamcanol ymarfer ailbrisiu 2025 a'r costau tebygol ar ôl hynny. Nododd un awdurdod lleol yr "*angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu gael adnoddau digonol i wneud y gwaith hwn ...*" ar sail gylchol.

Mewn 16% o'r sylwadau, awgrymwyd y byddai gallu trigolion i dalu, neu ar ba sail y mae unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor (gwerth eiddo), yn golygu na fyddai trethdalwyr yn gallu fforddio unrhyw gynnydd heb ystyried cylch. Nododd aelodau o'r cyhoedd, o dan gylchoedd amlach, y gallai trethdalwyr "*fod yn pryderu'n barhaus am y biliau yn cael eu codi i lefelau na ellir eu fforddio*" neu roeddent o'r farn nad yw ymarferion ailbrisiu treigl "*yn rhoi sicrwydd i bobl o ran beth fydd eu biliau pan fyddant yn ymrwmo i forgais 20-25 mlynedd*".

Un awgrym cyffredin, fel opsiwn amgen i gylchoedd aml, oedd y dylid "*gweinyddu cynllun lle mae tŷ ond yn cael ei ailbrisiu pan werthir eiddo*" er mwyn rhoi sicrwydd i aelwydydd tra byddant yn berchen ar eiddo.

## Cwestiwn 6: Gwelliannau i Eiddo

Pan gaiff eiddo ei wella'n sylweddol, dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y caiff eiddo ei adolygu ac, o bosibl, ei ailfandio, er enghraifft pan werthir eiddo i berchennog newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r polisi hwn newid yn y dyfodol.

Dylai	368 o ymatebwyr / 36%
Na ddylai	602 o ymatebwyr / 59%
Dim Ateb	54 o ymatebwyr / 5%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Darparodd **546** o ymatebion (54% o'r cyfanswm) sylwadau ychwanegol i'r cwestiwn hwn. Mewn 38% o'r ymatebion ysgrifenedig hyn, dadleuwyd y byddai ailfandio eiddo pan wneir gwelliannau sylweddol yn datgymell pobl rhag gwneud gwelliannau: *“bydd hyn yn golygu na fydd pobl yn gwario arian ar y stoc dai ac y bydd yr economi yn dioddef yn ogystal ag ansawdd y tai sydd ar gael...”*. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai newid o'r fath niweidio cymunedau lleol ac effeithio ar y diwydiant adeiladu yng Nghymru: *“ni fyddai adeiladwyr yn cael digon o waith”*.

At hynny, am fod TAW yn aml yn cael ei thalu ar y gwaith o adeiladu gwelliannau i eiddo, dadleuwyd y gallai newid y dull gweithredu presennol beri risg y byddai aelwydydd yn cael eu trethu ddwywaith, lle y byddent yn wynebu biliau treth gyngor uwch a biliau TAW yn union ar ôl gwelliannau sylweddol i eiddo.

Roedd 14% o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys sylwadau cyffredinol o blaid cadw'r dull gweithredu presennol, gydag un corff cynrychioliadol (Cynghrair Twristiaeth Cymru) yn nodi bod *“dadl dros esemptiad trosiannol er mwyn i berchennog adfer / mwynhau mantais annedd wedi'i gwella”*.

Awgrymodd 9% o ymatebion eraill mai dim ond rhai gwelliannau penodol y dylid eu cynnwys neu eu hystyried fel 'gwelliant sylweddol', megis estyniadau deulawr, ond y dylai gwelliannau eraill megis tramwyfeydd neu addasiadau i gartrefi sy'n cefnogi aelodau oedrannus neu eiddil o'r teulu fod wedi'u heithrio'n benodol bob amser.

Roedd thema allweddol arall yn ymwneud â'r posibilrwydd o ymarferion ailbrisio treigl. Yn ei hymateb, mae CLILC yn dadlau: *“Gydag ymarferion ailbrisio amlach, ni fyddai angen y darpariaethau hyn. Ni fydd treth gyngor perchenogion presennol sydd wedi buddsoddi yn yr eiddo yn cynyddu, ac eto gall roi sioc i unrhyw berchenogion newydd. Efallai mai'r opsiwn gorau yw bod gwelliannau i eiddo yn dod yn weithredol ar adeg pob ymarfer ailbrisio ar yr amod eu bod yn cael yn cynnal bob 5 mlynedd.”* Adleisiwyd y farn hon gan eraill.

Roedd ychydig dros un o bob pum ymateb ysgrifenedig (22%) yn cynnwys sylwadau cyffredinol o blaid ailfandio eiddo ar ôl i welliannau sylweddol gael eu gwneud, gydag un ymatebydd yn nodi nad yw'n deg "...os caiff tŷ ei ymestyn a'i fod yn dal i dalu'r un swm [o dreth gyngor]".

Roedd ymatebwyr eraill hefyd o'r farn y dylid ystyried newidiadau i fandiau eiddo sy'n cael eu haddasu'n sylweddol pan wneir y gwelliannau, gan nad yw llawer o drethdalwyr yn ymwybodol y gallai eiddo y maent wedi'i brynu gael ei symud i fand uwch. Adlewyrchwyd y ddadl hon yn y sylwadau gan Dribiwnlys Prisio Cymru ac un o'r cynghorau.

*Er mwyn gwneud y system yn decach, dylid newid y polisi hwn ac, os gwneir newidiadau sylweddol i eiddo, dylid adolygu'r band ar yr adeg honno. Os bydd angen symud yr eiddo i fand uwch, dylai'r newid i'r band fod yn weithredol o'r mis Ebrill canlynol. Er mwyn sicrhau cysondeb, byddai angen diffinio'r term "newidiadau sylweddol" yn glir. (Cyngor)*

*Dylid adolygu band eiddo cyn gynted ag y gwneir gwelliannau sylweddol a dylai'r gwelliannau hyn fod yn gymharol hawdd i'w monitro, os caiff gwybodaeth ei chyfnewid rhwng adrannau cynllunio/rheoli adeiladu awdurdodau lleol Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r system bresennol o adlewyrchu newidiadau yn dilyn trafodiad perthnasol neu pan gaiff eiddo ei ailbricio yn peri rhywfaint o ddryswch i'r trethdalwyr hynny sy'n cymharu bandiau eiddo mewn ardal benodol lle mae eiddo sydd wedi'i wella'n sylweddol yn aros yn yr un band ag eiddo sy'n llawer llai o ran maint ac yn llawer llai gwerthfawr. Gall hefyd fod yn syndod i berchenogion newydd eiddo wedi'i wella os caiff yr eiddo hwnnw ei ailfandio ar ôl iddynt ei brynu... (Tribiwnlys Prisio Cymru)*

## Cwestiwn 7: Apeliadau a Rheoli Dyled

A oes gennych unrhyw farn am hawliau apelio trethdalwyr neu sut y caiff dyled treth gyngor ei rheoli? Nodwch unrhyw syniadau sydd gennych i wella'r naill elfen neu'r llall.

Cafwyd 514 o ymatebion ysgrifenedig (50% o'r cyfanswm) i'r cwestiwn hwn.

### Apeliadau

Roedd tua un o bob chwech o'r ymatebion hyn (17%) yn galw am symleiddio'r broses apelio, a ddylai anelu at fod yn gyflym, yn syml ac yn gosteffeithiol. Nododd rhai ymatebwyr y gallai ymarferion ailbriso amlach leihau nifer yr apeliadau am fod prisiau tai yn llai tebygol o newid yn sylweddol rhwng ymarferion ailbriso, a allai leihau nifer yr apeliadau gormodol yn y tymor hwy.

Galwodd yr un gyfran o ymatebion (17%) am i'r broses apelio bresennol gael ei chadw, gydag un aelod o'r cyhoedd yn nodi y "*dylai fod gan bawb yr hawl i apelio*". Fodd bynnag, awgrymodd 4% o'r ymatebion y dylai apeliadau yn erbyn bandiau gael eu dileu'n gyfan gwbl.

Roedd safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys galw ar awdurdodau lleol i ariannu cost apeliadau, yn ogystal â lleihau faint o amser sydd gan drethdalwyr i apelio yn erbyn penderfyniad i gyflwyno rhestr briso newydd. Roedd awgrymiadau eraill o dan y thema hon yn cynnwys sefydlu corff i ymdrin â phob apêl sy'n ymwneud â threth gyngor yn hytrach na bod camau cychwynol y swyddogaeth hon yn cael eu cyflawni gan yr awdurdod lleol.

### Rheoli Dyled

Roedd 18% o'r ymatebion yn galw am amrywiaeth o ddulliau rheoli dyled, megis peidio â mynnu bod y bil treth gyngor yn cael ei dalu'n llawn pan fydd aelwydydd yn methu â thalu un rhandaliad; cynnig opsiynau talu hyblyg a strwythuredig; peidio ag anfon ceisiadau olaf yn ystod gwyliau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod "*deddfwriaeth eisoes yn nodi sut y gellir rheoli dyled*".

Y tu hwnt i gamau gweithredu uniongyrchol, awgrymodd un aelod o'r cyhoedd y dylai awdurdodau lleol geisio cynhyrchu refeniw drwy ddulliau eraill er mwyn gwrthbwyso'r 'biliau treth gyngor anghynaliadwy', megis buddsoddi mewn "*incwm o fuddsoddiadau cymunedol fel cynlluniau ynni gwyrdd â difidend cymunedol er mwyn lleihau cost gwasanaethau cyhoeddus*".

Awgrymodd rhai y dylid creu gwasanaeth penodol sy'n rhoi cymorth, gwybodaeth ac atebion ymarferol i aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ar incymau isel, er mwyn eu helpu i osgoi mynd i ôl-ddyledion treth gyngor yn y lle cyntaf.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth ymhlith awdurdodau lleol ac aelodau o'r cyhoedd i'r syniad y dylai awdurdodau lleol allu defnyddio pob un o'u pwerau presennol i gasglu cymaint o dreth gyngor nad yw wedi cael ei thalu â phosibl, gan gynnwys achosion

llys. Nododd un aelod o'r cyhoedd: "*Dylid mynd ag unrhyw un nad yw'n talu i'r llys, pam dylai'r trethdalwyr ariannu ei ddyled*". Nododd un awdurdod lleol hefyd ei bod yn "*...bwysig y gall cyngorau gasglu'r taliadau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol*".

Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i'r syniad y dylai awdurdodau lleol fod yn fwy sensitif wrth ymdrin â'r rhai sydd mewn dyled treth gyngor, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bwysau economaidd ehangach: '*Dylai cyngorau bob amser ystyried amgylchiadau personol y person a'r rheswm dros y ddyled, a chymryd camau i gytuno ar delerau i leihau eu dyled, yn hytrach na mynd â nhw'n syth i'r llys*'.



## Cwestiwn 8: Moderneiddio'r Gwasanaeth a Thryloywder y Gwasanaeth

**Beth yw eich barn ar sut y gall Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, cynghorau neu sefydliadau eraill foderneiddio'r gwasanaeth a ddarperir i drethdalwyr a gwella tryloywder system y dreth gyngor?**

Darparodd **419** o ymatebion (41% o'r cyfanswm) sylwadau ychwanegol i'r cwestiwn hwn. Roedd un o bob pump o'r ymatebion hyn (20%) yn cynnwys cyfeiriadau at foderneiddio'r dreth gyngor, gan gynnwys seilio atebolrwydd ar rywbeth heblaw gwerth eiddo. Ymhlith yr awgrymiadau a gynigiwyd roedd seilio atebolrwydd ar incwm aelwyd / profion modd, ffi sefydlog fesul aelwyd neu yn ôl prif breswylfa (yn hytrach nag ail gartrefi). Un awgrym a wnaed oedd y dylid *“llunio fformiwla yn lle bandiau, mae'n seiliedig ar gyfuniad o incwm, y defnydd o wasanaethau, maint eiddo, gwerth eiddo, economi'r ardal leol a faint o feddianwyr sydd. Gallwch addasu'r fformiwla hon o bryd i'w gilydd.”*

Awgrymodd ychydig o dan draean o'r ymatebion ysgrifenedig (29%) y dylid rhoi rhagor o wybodaeth i drethdalwyr am yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn gwario eu trethi arno er mwyn gwella tryloywder. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai hyn helpu i ailgysylltu'r dreth gyngor â gwasanaethau lleol. Awgrymodd eraill y dylai awdurdodau lleol gynnig cyfle i drigolion gael mwy o ddylanwad ar y ffordd y caiff eu harian ei wario yn eu hardaloedd lleol.

Roedd 9% o'r ymatebwyr yn awyddus i weld gwell cyfathrebu ac addysg am y dreth gyngor a threthi yn gyffredinol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai darparu gwybodaeth gliriach am y ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu harian fod yn ddefnyddiol, fel y nododd un Banc Bwyd: *“Nid yw pobl yn hoffi talu am rywbeth nad ydynt yn ei ddefnyddio/nad oes ei angen arnynt ond mae gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae cymuned yn helpu ei gilydd yn gwneud i bobl deimlo'n well am yr hyn y maent yn ei gyfrannu.”*

Galwodd 4% o'r ymatebion am i un gwasanaeth treth gyngor i Gymru gyfan gael ei sefydlu er mwyn rhoi cyngor neu wybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor. Roedd rôl y gwasanaeth hwn yn amrywio rhwng ymatebion, o ddarparu gwybodaeth ar-lein i sicrhau mwy o gysondeb rhwng ardaloedd awdurdod lleol. Nododd un elusen, heb fynediad digonol i wybodaeth am y dreth gyngor, fod hyn *“yn gwthio pobl sy'n agored i niwed i galedi ariannol”*.

Ymhlith safbwyntiau eraill a fynegwyd roedd y dylid gwneud gwell defnydd o adnoddau ar-lein neu adnoddau electronig i ddarparu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd rhai wedi rhybuddio rhag eithrio trethdalwyr nad ydynt yn ddigidol llythrennog.

## Cwestiwn 9: Disgowntiau ac Eithriadau

Beth yw eich barn am y disgowntiau, y personau a ddiystyrir, yr eithriadau neu'r premiymau presennol? Er enghraifft, a yw'r rheolau presennol yn briodol ac yn addas at y diben, yn eich barn chi? A ydych yn credu bod angen newid unrhyw agweddau penodol ar y rheolau neu fod angen llunio rheolau newydd?

Cafwyd **742** o ymatebion ysgrifenedig (72% o'r cyfanswm) i'r cwestiwn hwn. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o'r farn nad yw'r ystod bresennol o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau yn addas at y diben, nad ydynt yn briodol a/neu fod angen eu hadolygu. Ar y llaw arall, mynegodd un o bob pump o'r ymatebion hyn (19%) safbwyntiau bod yr ystod bresennol o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau yn addas at y diben ac nad oedd angen eu hadolygu.

Galwodd tua un o bob pump o'r ymatebion i gymhwyster i gael disgowntiau, diystyriadau, eithriadau a phremiymau fod yn seiliedig ar gyfran y meddianwyr ac incwm aelwydydd. Roedd nifer o ymatebwyr wedi galw am ragor o gymorth i aelwydydd sy'n gweithio sydd ar incymau isel, gan gynnwys: *“Mae llawer o bobl yn gweithio neu maent yn cael pensiwn ac mae ond ganddynt ychydig dros yr isafswm cyflog ac eto maent yn gorfod ymdrechu'n galed i dalu'r dreth gyngor LAWN”*.

Cyfeiriodd **304** o ymatebwyr at y disgowntiau, y diystyriadau, yr eithriadau a'r premiymau presennol neu newydd.

Math o Ddisgownt Presennol neu Arfaethedig ac ati	Nifer yr Ymatebion
<b>Disgownt Oedolyn Trethadwy Sengl</b>	
Cynyddu neu gadw	82
Dileu neu adolygu	13
<b>Anableddau</b>	25
<b>Aelwydydd sy'n Gweithio / Teuluoedd NAD ydynt yn cael Budd-daliadau</b>	34
<b>Ail Gartrefi</b>	
O blaid y premiwm	17
Yn erbyn y premiwm	59
<b>Pensiynwyr</b>	41
<b>Gofalwyr</b>	14
<b>Eiddo Gwag Hirdymor</b>	
O blaid y premiwm	6
Yn erbyn y premiwm	5
<b>Myfyrwyr</b>	
Adolygu'r disgownt	3
Dileu'r disgownt	5

## Cwestiwn 10: Hyblygrwydd Disgowntiau Oedolyn Sengl ac Eiddo Gwag

**A ddylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i bennu'r rheolau ar gyfer disgowntiau 'oedolyn sengl' ac 'eiddo gwag' statudol?**

Cafwyd **606** o ymatebion ysgrifenedig (59% o'r cyfanswm) i'r cwestiwn hwn. Wrth gyflwyno sylwadau ynghylch a ddylid rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r disgownt oedolyn sengl neu'r 'disgownt dwbl', roedd yr ymatebion fel a ganlyn.

<b>Cytuno â rhoi mwy o hyblygrwydd neu newid y dull presennol o ymdrin â'r rheolau.</b>	208 o ymatebion / 34%
<b>Anghytuno â rhoi mwy o hyblygrwydd neu'n fodlon ar y dull presennol o ymdrin â'r rheolau.</b>	169 o ymatebion / 28%

O blith yr awdurdodau lleol hynny a ymatebodd, roedd y mwyafrif o blaid rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r disgowntiau, yn enwedig y disgownt oedolyn (trethadwy) sengl.

Awgrymodd un cyngor y dylid adolygu'r gydberthynas rhwng y rhai sy'n gymwys i gael disgownt oedolyn sengl a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cynigiodd yr awdurdod hefyd y dylid diddymu'r disgownt oedolyn sengl, gan drosglwyddo'r cyllid a ddyrennir i'r disgownt a chynnwys yr aelwydydd cymwys yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unig.

Gwnaed rhai sylwadau cyffredinol eraill, megis galw am gynnydd yn y disgownt canrannol a roddir i aelwydydd un oedolyn (7%). Awgrymodd rhai y dylid rhoi disgownt o hyd at 50%. Galwodd 2% o'r ymatebion ysgrifenedig am i'r disgownt gael ei ddiddymu'n gyfan gwbl.

Awgrymodd 3% o'r ymatebion na ddylai eiddo gwag dalu unrhyw dreth gyngor o gwbl: soniodd rhai am unigolion sydd wedi etifeddu eiddo ond sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor o ganlyniad i hynny. Galwodd 7% o'r ymatebion am i'r disgownt eiddo gwag gael ei ddiddymu.

## Cwestiwn 11: Eiddo wedi'i Addasu ar gyfer Pobl Anabl

Sut y gellid diwygio, symleiddio neu wella gostyngiadau yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo sydd wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl sy'n byw ag anabledd?

O'r 334 o ymatebion (33% o'r cyfanswm) i'r cwestiwn hwn, roedd y themâu yn cynnwys y canlynol.

<b>Cynyddu'r Gostyngiad ar gyfer Eiddo wedi'i Addasu ar gyfer Pobl Anabl</b>	63 o ymatebion / 19%
<b>Lleihau'r Gostyngiad ar gyfer Eiddo wedi'i Addasu ar gyfer Pobl Anabl</b>	62 o ymatebion / 19%
<b>Cadw'r Gostyngiad ar gyfer Eiddo wedi'i Addasu ar gyfer Pobl Anabl</b>	40 o ymatebion / 12%

Awgrymodd un o bob pump o'r ymatebion (20%) y dylai'r gostyngiad fod yn destun prawf modd neu y dylai fod yn seiliedig ar incwm aelwydydd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn annheg y gallai'r rhai sy'n cael y gostyngiad fod yn gweithio neu'n cael incwm sylweddol: “*os oes gennyhych yr arian i dalu, dylech dalu mwy*”. Nododd yr ymatebwyr hynny a fynegodd y farn hon fod mesurau a chynlluniau eraill i gefnogi aelwydydd incwm isel sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Galwodd 12% o'r ymatebion am i'r gostyngiad fod mor hygyrch a syml â phosibl o ran gwneud cais amdano, y meini prawf a chymhwyster. Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn cynnwys adroddiadau personol am yr anawsterau a wynebwyd gan unigolion, neu berthnasau'r unigolyn, wrth wneud cais Felly, galwodd llawer o ymatebwyr am i newidiadau gael eu gwneud i'r broses gwneud cais neu'r ffordd y cymhwysir y gostyngiad, gydag un ymatebydd yn nodi: “*bydd unrhyw broses a luniwyd i rymuso pobl, yn hytrach na chyfyngu ar bobl a mynediad, yn gweithio*”. Nododd un awdurdod lleol hefyd y “*gall y gofyniad i wneud cais olygu bod rhai [...] yn cael eu hatal rhag gwneud cais neu nad ydynt, o bosibl, yn ymwybodol bod y fath ostyngiad i'w gael*”.

Galwodd 8% o'r ymatebion am ostyngiad yn y dreth gyngor i bob unigolyn anabl neu bob aelwyd sydd ag unigolyn anabl, yn gyffredinol: “*dylai pobl anabl fod wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor*”. Argymhellodd Shelter Cymru y dylai Llywodraeth Cymru “*ystyried mesurau ychwanegol megis eithrio pobl anabl rhag talu'r dreth gyngor yn hytrach na disgowntiau, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw parhaus*”.

## Cwestiwn 12: Teitlau Disgowntiau / Â Nam Meddyliol Difrifol

A ddylai Llywodraeth Cymru allu diwygio teitlau unrhyw ddisgowntiau, personau a ddiystyrir neu eithriadau a'r disgrifiadau ohonynt? A ddylai unrhyw rai o'r teitlau presennol gael eu newid, yn eich barn chi? Beth fyddai'n derm mwy priodol i'w ddefnyddio yn lle 'â nam meddyliol difrifol'?

<b>Cytuno y dylai Llywodraeth Cymru allu diwygio teitlau a disgrifiadau</b>	178 o ymatebion / 51%
<b>Anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru allu diwygio teitlau a disgrifiadau</b>	107 o ymatebion / 31%
<b>Ddim yn Siŵr / Ddim yn Gwybod</b>	65 o ymatebion / 19%

Cafwyd **350** o ymatebion ysgrifenedig (34% o'r cyfanswm) i'r cwestiwn hwn. Mewn 19% o'r ymatebion hyn, roedd ansicrwydd ynglŷn â sut i ateb y cwestiwn.

O blith y rhai a awgrymodd derminoleg briodol arall i'w defnyddio yn lle'r term 'â nam meddyliol difrifol', cynigiwyd 86 o deitlau newydd yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd ymatebion fod angen bod yn ofalus wrth geisio term arall i'w ddefnyddio yn lle 'â nam meddyliol difrifol' er mwyn sicrhau ei fod yn diffinio'n glir pwy sy'n gymwys a phwys sy'n anghymwys i gael y gostyngiad.

Darparodd Money Saving Expert (MSE) dystiolaeth anecdotaidd yn ei ymateb gan roi enghreifftiau a oedd yn dangos bod angen newid y teitl 'â nam meddyliol difrifol', gan nodi "*nad oedd yn uniaethu â'r iaith 'â nam meddyliol difrifol' a bod y term hwn yn un annymunol a oedd yn peri iddo beidio â chymryd rhan yn y broses gwneud cais. Disgrifiodd defnyddiwr arall sut roedd ei ffrind, yr oedd ei gyflwr iechyd meddwl yn debygol o fodloni'r meini prawf ar gyfer diagnosis o 'â nam meddyliol difrifol', yn teimlo bod yr iaith hon gosod baich arno ac yn gwneud iddo deimlo cywilydd, a oedd yn gwaethygu problemau iechyd a oedd ganddo eisoes.*"

Byddai awgrymiadau un awdurdod lleol i symleiddio'r broses gwneud cais drwy "*ddiddymu'r system bresennol a chyflwyno gostyngiad statudol pan fydd meddiannydd yn cael budd-dal(iadau) anabledd arbennig ar gyfradd briodol*" yn cael yr effaith honno. At hynny, byddai hyn yn osgoi'r sefyllfa lle mae "*...ALLau yn gorfod gwneud penderfyniadau mewn achosion mwy amwys*" ac yn nodi'n awtomatig y rhai a all fod yn gymwys ond nad ydynt am wneud cais neu nad ydynt yn gwybod, o bosibl, sut i wneud hynny.

Nododd sawl ymateb y gallai Cymru arwain y ffordd o ran sicrhau bod teitlau a disgowntiau a gostyngiadau'r dreth gyngor yn fwy hygyrch a graddoledig.

## Cwestiwn 13: Dyluniad Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd angen parhau i roi cymorth i aelwydydd incwm isel dalu eu biliau treth gyngor. A oes gennych unrhyw farn ar ddyluniad y cynllun presennol, gan gynnwys a ddylai barhau i fod yn ddibynnol ar brawf modd? A oes gennych unrhyw farn gyffredinol ar y cynllun?

Oes	347 o ymatebwyr / 34%
Nac oes	550 o ymatebwyr / 54%
Dim Ateb	127 o ymatebwyr / 12%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Cafwyd **401** o ymatebion ysgrifenedig (38% o'r cyfanswm).

Rhoddodd rhai ymatebwyr ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, drwy roi ateb negyddol ond gan nodi yr hoffent weld profion modd yn parhau i gael eu defnyddio.

Mae dadansoddi'r ymatebion ysgrifenedig yn helpu i roi darlun cliriach. Roedd 61% o'r ymatebion hyn o blaid parhau i ddefnyddio profion modd fel rhan o'r broses o gadarnhau cymhwyster ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er i 4% o'r ymatebion nodi na ddylai'r profion modd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gynnwys unrhyw gynilion a allai fod gan aelwydydd.

Roedd tua un o bob pum ymateb (19%) o'r farn nad yw'r cynllun presennol yn gwneud digon i helpu aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, gan gynnwys pensiynwyr neu aelwydydd incwm isel ac, felly, y dylid ymestyn y meini prawf. Adleisiodd un aelod o'r cyhoedd sylwadau eraill ymatebwyr drwy alw am gymorth: *“nid yn unig i'r aelwydydd incwm isaf ond hefyd y ‘canol gwasgedig’ y mae eu hincwm yn golygu nid yn unig nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau ond na allant dalu biliau treth gyngor uwch am fod costau byw wedi codi'n gyflymach na chodiadau cyflog”*.

Mewn 10% o'r ymatebion ysgrifenedig, mynegwyd y farn bod y cynllun presennol hefyd yn rhy hael, yn enwedig i bobl *“sydd eisoes yn cael budd-daliadau eraill”*. Awgrymodd yr ymatebion hynny fod aelwydydd sy'n gweithio wedi'u heithrio neu eu bod o dan anfantais pan ddaw'n fater o gael cymorth ychwanegol.

Galwodd ymatebion eraill (3%) am i'r cynllun gael ei newid pe bai hynny'n golygu bod y cynllun yn haws i'w ddeall a'i ddefnyddio.

## Cwestiwn 14: Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

A ddylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun cenedlaethol, i'w weinyddu'n lleol gan gynghorau, a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, petai angen?

Dylai	493 o ymatebwyr / 48%
Na ddylai	360 o ymatebwyr / 36%
Dim Ateb	171 o ymatebwyr / 17%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Cafwyd **413** o ymatebion ysgrifenedig (40% o'r cyfanswm). O blith y rhai a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig, roedd awdurdodau lleol yn cytuno ag egwyddor cynllun cenedlaethol a fyddai'n darparu ar gyfer gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig er mwyn *“ymdrin â digwyddiadau nas rhagwelwyd megis newidiadau i'n heconomi neu'n cymdeithas, megis pandemig y Coronafeirws, ffoaduriaid o Wcráin a'r argyfwng costau byw.”*

Nododd rhai ymatebwyr fod cynllun cenedlaethol yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol. Nododd un awdurdod lleol fod dull gweithredu o'r fath yn dileu'r *“loteri cod post' a geir yn Lloegr oherwydd ei dull gweithredu dadreoleiddiedig.”*

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y gallai cynllun cenedlaethol fod yn *“tanseilio atebolrwydd a democratiaeth leol”*.

## Cwestiwn 15: Trefniadau Lleol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

A ddylai'r trefniadau lleol presennol fod yn rhan o'r cynllun cenedlaethol newydd er mwyn sicrhau cysondeb, tra'n cydnabod y bydd cynghorau yn cadw'r pwerau disgresiwn presennol o dan ddeddfwriaeth?

<b>Dylent</b>	493 o ymatebwyr / 48%
<b>Na ddylent</b>	360 o ymatebwyr / 35%
<b>Dim Ateb</b>	171 o ymatebwyr / 17%
	<b>Cyfanswm: 1,024 o ymatebwyr</b>

Cafwyd **264** o ymatebion ysgrifenedig (26% o'r cyfanswm).

Roedd llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd i'r cwestiwn hwn yn cyd-fynd â'r themâu a'r farn a fynegwyd yng Nghwestiwn 14. Roedd cytundeb cyffredinol bod elfen o leoliaeth yn hanfodol i ddelio â materion lleol. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd y byddai'n ddymunol cael cynllun cenedlaethol â rhywfaint o ddisgresiwn lleol.



## Cwestiynau 16 a 17: Y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r polisiau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisiau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

O blith y **1,024 o ymatebion i'r ymgynghoriad**, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i Gwestiwn 16 (78%) na Chwestiwn 17 (91%) yn ymwneud â'r cwestiwn ac nid oeddent wedi cyflwyno sylwadau ar ystyriaethau polisi ehangach i Lywodraeth Cymru o ran y Gymraeg a oedd y tu hwnt i gwmpas trethiant lleol a'r ymgynghoriad hwn. O'r ymatebion i'r ddau gwestiwn, daeth y themâu canlynol i'r amlwg:

Dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw effaith ar gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor.

Roedd ychydig o dan un o bob pum ymateb (19%) yn cynnwys datganiadau nad oedd unrhyw effaith ar y Gymraeg oherwydd y diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor.

Mewn 13% o'r ymatebion, awgrymwyd mai dim ond yn newis iaith y derbynnydd y dylid unrhyw anfon unrhyw ohebiaeth gan awdurdodau lleol, a hynny er mwyn lleihau gwastraff a chostau. Roedd 6% o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau negyddol ar y diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor a'r Gymraeg ac roedd ychydig o dan un o bob 10 ymateb (9%) yn cynnwys datganiadau y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg. Nododd un awdurdod lleol na ddylai diwygiadau i'r dreth gyngor "*greu problemau o ran fforddiadwyedd yn ein cymunedau*", yn arbennig i gymunedau Cymraeg a chymunedau gwledig.

Cyfeiriodd tua 10% o'r ymatebion at y premiwm ail gartrefi ac effaith ail gartrefi o ran gwasgaru cymunedau, yn arbennig cymunedau Cymraeg. Galwodd 4% o'r ymatebion am ddisgownt ar gyfer aelwydydd Cymraeg er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau cydlyniant cymunedol.

## Cwestiwn 18: Unrhyw Sylwadau Pellach

Cafwyd **296** o ymatebion ysgrifenedig (29% o'r cyfanswm).

Yng Nghwestiwn 18, gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi unrhyw faterion cysylltiedig na chawsant eu trin yn benodol yn eu hymatebion i Gwestiynau 1 i 17. O ganlyniad, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o themâu gwahanol.

Roedd ychydig dros draean o'r ymatebion (34%) i'r cwestiwn hwn yn beirniadu'r newidiadau arfaethedig i'r dreth gyngor, megis:

- y canfyddiad na ddylid cosbi unigolion a oedd wedi gweithio'n galed i allu fforddio eiddo gwerth uchel;
- nid dyma'r adeg i ddiwygio'r dreth gyngor o ystyried yr argyfwng costau byw;
- byddai'r cynigion yn cosbi perchenogion ail gartrefi a/neu'r sector twristiaeth;
- byddai'r cynigion yn codi trethi;
- byddai'r cynigion yn annheg i bensiywyr ag incwm is.

Yn gysylltiedig â'r feirniadaeth hon, roedd 4% o'r ymatebion yn cynnwys rhagfynegiadau negyddol o ran effaith y cynigion, megis cyfraddau tlodi uwch a phobl yn symud i eiddo llai o faint neu allan o Gymru.

Roedd ychydig dros un o bob pum ymateb (22%) yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â'r ffordd y gellid gwella system y dreth gyngor, gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol, mwy o gymorth i bobl ar incwm isel a threthi ychwanegol ar eiddo heb ei feddiannu.

Roedd 15% o'r ymatebion yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer sylfaen trethiant lleol amgen, gan gynnwys trethi sy'n seiliedig ar incwm, faint o ddefnydd a wneir o wasanaethau, gwerth tir, nifer y meddianwyr a threth gyfradd safonol i bob aelwyd.

Roedd 14% o'r ymatebion yn ymwneud ag agweddau ehangach ar system bresennol y dreth gyngor, megis gwasanaethau neu seilwaith o ansawdd gwael, yr angen i orfodi'r dreth gyngor yn llymach a chanfyddiad ei bod yn annheg bod gan eiddo sydd yn yr un band ond mewn awdurdod lleol gwahanol filiau treth gyngor gwahanol.

Roedd 11% o'r ymatebion yn ymwneud ag ymgysylltu, tryloywder a deall system bresennol y dreth gyngor a phrofiadau o gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys beirniadaeth o natur gymhleth cwestiynau'r ymgynghoriad, galwadau am dryloywder ynglŷn â'r ffordd y byddai unrhyw ymarfer ailbriso yn cael ei gynnal a'r rhai oedd yn teimlo nad oedd eu llais wedi cael ei glywed.

## **Ymateb y Llywodraeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ac yn arbennig i bawb sydd wedi ymateb iddo. Gan mai dogfen gryno yw hon, nid yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau yn y crynodeb hwn yn golygu eu bod wedi cael eu diystyru. Ystyrir llawer o faterion o'r fath fel rhan o'r rhaglen waith ehangach fel rhan o ddull Llywodraeth Cymru o ddiwygio'r dreth gyngor.

## **Y camau nesaf**

Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad ysgrifenedig yn nodi cynlluniau i barhau i weithio ar ddiwygio'r dreth gyngor fel y'i hadlewyrchir yn ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Aelod Seneddol Trefynwy  
Age Cymru  
Amzac Estates Ltd  
CLILC  
Cynghrais Twristiaeth Cymru  
Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-  
nedd Port Talbot  
Cyngor ar Bopeth Cymru  
Cyngor Bro Morgannwg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr  
Tudful  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
Cyngor Caerdydd  
Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a  
Llanelian-yn-Rhos  
Cyngor Cymuned Llanberis  
Cyngor Cymuned Llandochoau  
Cyngor Cymuned Llanfrothen  
Cyngor Cymuned Lledrod  
Cyngor Cymuned Pelenna  
Cyngor Cymuned Saundersfoot  
Cyngor Cymuned Tawe Uchaf  
Cyngor Cymuned Trefeglwys  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir Fynwy  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Tref Penarth  
Cyngor Tref Treffynnon  
Cyngor Tref y Drenewydd a  
Llanllwchaearn  
Cyngor Tref y Fenni  
Cymdeithas Cyngorau Gogledd a  
Chanolbarth Cymru  
Cymdeithas Genedlaethol y  
Landlordiaid Preswyl  
Christians Against Poverty  
Dinas a Chyngor Abertawe  
Fairer Share  
FTWW: Triniaeth Deg i Ferched  
Cymru  
Gadlys Coastal Cottages and  
Campsite  
J M Holistics  
Money Advice Trust  
Money Saving Expert (MSE)  
Prifysgol Bangor  
Sefydliad Bevan  
Sefydliad Siartredig Trethiant a Grŵp  
Diwygio Trethiant Incwm Isel  
Shelter Cymru  
TPR Financial Ltd  
Tribiwnlys Prisio Cymru  
Un Llais Cymru  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr  
Cymru  
UNSAIN  
Welsh Workers of Wales Alliance and  
Union  
Women Connect First  
Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau  
Y Llang Brydeinig Frenhinol  
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw  
(IRRV)  
Unigolyn Preifat x 242  
Dienw x 707